# Glas

Rhif 216

Chwefror 2026

Llén natur
Cymdeithas Edward Llwyd

Bwletin misol

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd




Dryw Penfflamgoch - Rhiw, Llŷn
13 Ionawr 2026 ■ Dei Rees

**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**


Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

# Tywydd Nadolig 2025

**Yn ôl y BBC (hynny yw y Swyddfa Dywydd), Lerwick yn Shetland oedd y lle cynhesaf ym Mhrydain Nadolig 2025 tra bu Ynysoedd y Sili dan eira.** **DB**

*Yesterday, Iceland saw unusually warm weather. On Christmas Eve, some stations recorded temperatures close to 20 °C, values that would be rare even in June. The highest temperature, 19.7 °C, was measured at Bakkagerði on Iceland's east coast, matching the country's all-time December record set in 2019.* **Ventusky**

















❶ Y lleuad heno tua 19:00. 23/12/2025 **Eirlys Edwards-Behi**

❷ Ac eto ar 25/12/2025. **EE-B**

❸ Brynsiencyn, Môn, dydd Nadolig 25 Rhagfyr 2025. **Cled Hughes**

❹ Nadolig Llawen i bawb. Bore 'Dolig 2025 yma yn Mynytho .Ac mae'n fore SYCH, oer, gwyntog ac wedi rhewi ffenest y car. **Netta Pritchard**

❺ Ym Methesda rwan [Nadolig 2025] - anisgwyl i'r adeg yma o'r flwyddyn? **Geth Davies**

**Un o ddau gofnod Cymuned Llên Natur "cyntaf" MANTELL PAUN ym mis Rhagfyr. Llun gan Erica Davies oedd y llall.** **(Golygydd)**

# Gwersi Goretti

## Y GAIR AR Y STRYD (myfyrdodau ar heth 2025-6)

"Mymryn bach o eira a phopeth yn dod i stop" (yn sinicaidd)
"Dydi hyn yn ddim byd wrth ymyl fel oedd hi 'stalwm" (hiraeth yr 'hen do' sy'n cofio hinsawdd caletach)

## Beth sydd wedi newid ers y ganrif ddiwethaf?

**1**. Deddfau Iechyd a Diogelwch (oes yna lai o ddamweiniau anafus/marwol per diwrnod o heth - beth yw'r ystadegau?).

**2**. Llai o gyfnodau o 'heth' (tywydd oer rhewllyd yn ein dal yn fwy annisgwyl).

**3**. Uwchraddio'r ffyrdd heb gadw i fyny efo'r cynnydd ym maint ceir a thwf perchnogaeth ar gar (gwerthiant ceir trwm, SUV a thrydan, yn cynyddu'n aruthrol. Y nifer o geir yn codi a rheini'n beryglus wrth symud AC wedi eu parcio ar y lôn).

**4**. Ers talwm roedd llai o fentro allan ar y ffyrdd ynghanol heth - heddiw mae MWY o fentro allan (i roi prawf go iawn ar y *'Chelsea tractors'*!).

**5**. Mwya'n y byd o geir ar y ffordd yn cystadlu am LAI o le oherwydd rhew dan amodau ansicr, mwya peryglus yw'r cerbyd iddo'i hun, i geir eraill ac yn bennaf, i gerddwyr (eto, beth yw'r ystadegau?) Diolch am y rhybuddion swyddogol!!

**Trafoder…!**

# Paracit torchog ar drothwy'r drws



Treforys



Llundain

■ **Paracit torchog** *(Ring necked Parakeet)* **Parc Treforys,** 05-03-2025**.**
**Arwyddion bod y rhywogaeth yma yn lledu tua'r gorllewin. Rhai wedi'u cofnodi yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Cofnodion o Barc Treforys a Pharc Singleton yn ardal Abertawe.**

## Ac yn Nhrefnant hefyd:

■ **Paracit Torchog, 26 Awst 2025. Llundain. Mae Llundain yn gartref i filoedd o'r adar egsotig yma, mae niferoedd yr adar yma wedi tyfu o ychydig gannoedd yn yr wythdegau i dros 300,000 yn ôl y cyfrif diwethaf yn 2012. Dwi wedi gweld un yn yr ardd yn Nhrefnant unwaith.** **Alun Williams**

### Ymlediad y PARCIT TORCHOG yn Ewrop a Lloegr. A ddylen boeni yng Nghymru?

Mae nhw ar riniog y drws ac yn fygythiad I'n hadar cynhenid tebyg, fel delor y cnau a chnocellod, ac yn ymosod ar ystlumod sydd yn defnyddio tyllau mewn coed – yn benodol yr ystlum mawr – yn ôl sylwebyddion yn Sbaen.
**Gweler y ddolen hon** - Rhowch <paracit> yn y chwiliad i gael mwy o wybodaeth

**COFIWCH RANNU UNRHYW GOFNODION O GYMRU**

Gweler hefyd y **fideo hwn** gan y BBC am ymddygiad naturiol paracit, fel petasen nhw yn yr Amason. **Ond ydyn nhw?**

**Dim yng Nghymru:** Gawsom ni'r brofiad o weld paracit yn hedfan ar hyd stryd grandiaf Palermo (Sisili) wrth iddi hi nosi. Dim ond yn Llundain (Hyde Park) roeddwn i wedi eu gweld o'r blaen - 10 Hydref 2024 **DK**

# Cymhariaeth y ddwy ŵydd ddu





Gwyddau duon sydd yma, byddaf yn gweld nifer ar y Foryd, Caernarfon ond tynnais rhain yn West Kirby, Ionawr 15.

Gŵydd ddu fol tywyll *[black bellied Brent goose]* dwi'n meddwl sydd yn y llun cyntaf, rhain yn teithio yma o Rwsia a Siberia, gwyddau duon bol golau *[pale bellied brent geese]* sydd yn yr ail lun, rhain yn teithio yma o'r Ynys Las a Svalbard.

---

Mae'r ŵydd ddu *(Branta bernicla)* yn ŵydd o'r genws *Branta*. Mae'n ŵydd weddol fychan, tua 60 cm o hyd, gyda chynffon fer.

**Mae tair is-rywogaeth o'r Ŵydd Ddu:**

- Gŵydd Ddu Fol-dywyll *Branta bernicla bernicla*
- Gŵydd Ddu Fol-olau *Branta bernicla hrota*
- *Branta bernicla nigricans*

Fel rheol mae'n treulio'r gaeaf ar yr arfordir, lle mae'n bwyta gwellt y gamlas (morwellt yn ôl rhai) *Zostera marina* a math o wymon y môr, *Ulva*. Yn ddiweddar mae wedi dechrau bwyta mewn porfa hefyd, efallai oherwydd fod poblogaeth yr ŵydd yma wedi cynyddu'n sylweddol iawn dros yr ugain mlynedd diwethaf. **Ar Wicipedia**

## Dod i 'nabod gwylan



**GWYLAN BENWAIG bore ma** [26 Rhagfyr 2025] **ar wal Yr Anglesey yng Nghaernarfon efo modrwy am ei choes. Dyma'i themptio ataf efo briwsion bisgedi cwn ym mherfeddion fy mhoced (twt-twt!) i geisio cael llun o'r rhif ar y fodrwy. Dyma'r lluniau gorau a gefais ... ***20559 (rhag ofn bod y modrwywr yn dilyn Cymuned ac yn gallu dilyn tras tebygol yr wylan yn ôl?). Dyma alw y modrwywr Kelvin Jones...**

Dyma ateb y modrwywr Phil Belman o Rhoshirwaun diolch i Kelvin: *"It's almost certainly GY11559, mine from 2024, but do pass my email and ask them to forward the pics, if the 20 is correct likely another bird involved, I ring a few there... also possible GV56559 ringed there in 2018..."*


Felly mae'n debyg mai gwylan sydd wedi treulio peth o'i bywyd ym mhendraw Llŷn yw hon. Cafodd ei modrwyo'n oedolyn efallai y llynedd neu 8 mlynedd yn ôl (petai hi yn GY11559, fel cyw, ni fyddai wedi cael amser i ddatblygu gwisg wen).

Ar ôl trafod efo'r modrwywr Paul Belman dyma'i gasgliad terfynol:

*Initially this could have been one of two locally ringed Herring Gulls, both rings ending in 559. Your pics confirm that it is GY11559, ringed in Caernarfon on 31/08/2024 as an adult. It was also seen there on 13/09/2025.*

Felly 'Cofi' o wylan yw hon, wedi bod yn tindroi o gwmpas y Dre 'ma ers o leiaf Awst 2024 ac yn hambygio'r 'fisitors' trwy'r haf eleni mae'n siwr. Roedd hi'n dal i fegian pan dynais y lluniau. Stagiwch amdani am fwy o'i hanes...

## Ffenograff y mentyll paun




Dyma graffio'r holl gofnodion MANTELL PAUN yma (y rhai efo lluniau) fesul mis rhwng 2018 a 26 Rhagfyr 2025. Mae'r raddfa 'y' (fertigol) yn dynodi y NIFER o gofnodion. Eleni oedd y ddau ym mis Rhagfyr. Mae'r ddau benllanw ym Mawrth/Ebrill a Gorff./Awst/Medi yn debyg o fod yn gynnyrch dau ddeoraid o boblogaeth glöynnod sefydlog yr ardal yn hytrach na mewnfudwyr. Mae'r rhai anhymhorol gaeaf yn ddeffröwyr yn dilyn tywydd mwyn (mae'r teulu hwn yn gaeafgysgu yn eu ffurf oedolyn aeddfed mewn cilfachau ac adeiladau fel un Gethin).

**Croeso i chi drafod ymhellach.**

## Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Glas

Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com

# Titw Tomos melyn Annwen Hughes










30/10/25. Wel Mae hi yn 2 flynedd ers i fi weld y aderyn bach unigryw yma yn yr ardd yn Niwbwrch. Llawer yn dweud na fuasa'n para yn hir o achos fuasa'n darged amlwg, ond na, mae o yma o hyd. Mae yn dod pob dydd am ei frecwast a gan fy mod yn ei adnabod yn dda mi rois yr enw Gwyn Thomas iddo gan ddisgwyl ambell i ddarlith ganddo.

11/08/25. Wel, mae'r titw tomos dal o gwmpas yma yn Niwbwrch. Bydd yn 2 flynedd yn yr Hydref ers i fi ei weld gyntaf - doeddwn i heb ei weld trwy'r haf tan heddiw. Falch ei fod dal o gwmpas. **Annwen Hughes**

17/8/24. A dyma ni 10 mis ers y gwelais y titw gwyn am y tro cyntaf [Tachwedd 2023]. Tydio ddim yn dod mor aml i'r ardd ond falch o'i weld heddiw yn Niwbwrch.

Dyma ditw o batrwm plu gwyredig mae Annwen wedi bod yn ei ddilyn rhwng Tachwedd 2023 a diwedd Hydref 2025. Mae o felly wedi byw am o leiaf dyflwydd. Does dim pendantrwydd 100% mai'r un aderyn sydd yn y tri llun ond mae'n edrych yn debyg ei fod. Dyma efengyl y BTO am hoedledd y titw tomos:

### *How long do Blue Tits live?*

*Blue Tits typically live for three years, but the maximum age recorded from bird ringing is 10 years, 3 months and 10 days. Almost two-thirds of young Blue Tits will not survive their first year of life, but those that do usually start to breed the spring after they hatched.*

Er gwaethaf ei liw 'anfanteisiol' mae 'Gwyn Tomos' wedi goroesi prawf cyntaf ei fywyd ar ôl blwyddyn a bellach wedi cyrraedd cyfnod hoedledd arferol ei fath. Diddorol fydd gweld ei hynt pellach. **Ystyriaeth bwysig:** ydi o/hi wedi llwyddo i fagu cywion ei hun? Hynny, ac nid goroesiad yn unig, yw'r prawf i awgrymu a yw'r patrwm plu yn anfanteisiol iddo ynteu yn niwtral. Byddai'n rhaid dilyn hynt nifer o adar tebyg i wybod a yw'r patrwm plu yn fanteisiol ai peidio. Os felly, gallwn ddisgwyl mwy o ditwon gwyn/melyn yn y dyfodal.

# Grifft llyffant




Grifft llyffant, Farchynys, ger Bontddu heddiw 24/1/26

**Ann James**

# Eira Ionawr 2026



11 Ionawr 2026
**Eirlys Edwards-Behi**



6 Ionawr 2026
**Moel Fenlli**
**Alun Williams**



4 Ionawr 2026
**Dafydd Dyn Blin**





6 Ionawr 2026
***Going to be a good day***
**John Riley**



6 Ionawr 2026
**Mynydd Mawr a Craig y Bere**
**Wynne Evans**



5 Ionawr 2026
**Titw cynffon hir**
**Meryl Roberts**



4 Ionawr 2026
**Brithdir a Llanfachreth**
**Martin Jones**



4 Ionawr 2026
**James Johnjo Jones**

# Brân  Cernyw, brân Arthur





**Lluniau DK - Y Gogarth, Llandudno**
**25 Ionar 2026**

*Palores* y Cernywiaid (a'r Cymry), *kavan beg ruz* y Llydawyr, *Pyrrhocorax pyrrhocorax*, o'r geiriau Groeg *pyros*, sy'n golygu lliw fflam, a *korax*, gair sy'n dynwared cri cigfrain a brain. Dywedir ei fod yn onomatopoeia. Yn union fel ei enw Saesneg, *chough*!

Er ei fod yn aelod o deulu'r brain fel arall, mae'r frân goesgoch yn eithriad i ryw raddau. Dyma'r unig un o'i bath, ynghyd â'i chefnder, y frân goesgoch alpaidd, sy'n ymfalchïo mewn pig melyn llachar ac a geir yn bennaf mewn ardaloedd mynyddig uchel.

Yng Nghernyw, credir bod lladd brain goesgoch yn dod â lwc ddrwg, gan ei fod yn ymgorffori ysbryd y Brenin Arthur. Ystyriwyd ei ddychweliad i'r wlad yn 2001, ar ôl absenoldeb o 50 mlynedd, fel dychweliad symbolaidd y Brenin.

Yn Ffrainc, ystyrir bod y rhywogaeth hon yn fregus, gyda phoblogaethau dan fygythiad wrth golli cynefinoedd bwyta a dirywiad ffermio defaid. Yn fyr, mae'r frân goch yn symbol diwylliannol ac yn aderyn mewn perygl.

Yn Sbaen, pan ddaw amser nythu, mae brain coesgoch yn ffurfio cynghreiriau anarferol. Maen nhw'n chwilio am gilfachau a chorneli mewn clogwyni a phantiau lle gallant adeiladu eu nythod, ac maen nhw'n dewis rhai cymdogion penodol iawn: y cudyll coch bach *Falco naumanni*!

Efallai eich bod chi'n meddwl ei bod hi'n syniad rhyfedd mynd yn agos at yr adar ysglyfaethus hyn, sy'n helwyr aruthrol.

Mewn gwirionedd, mae gan y cudyllod coch bach hyn yr un gelyn â brain coesgoch, sef aderyn ysglyfaethus mwy ei faint, fel yr hebog tramor neu'r gwalcheryr bacsiog *Hieraaetus pennatus*, sy'n ceisio eu bwyta, ond hefyd rhai cnofilod fel y pathew gardd *Eliomys quercinus* neu'r neidr ysgol *Zamenis scalaris*, sy'n ymosod ar eu hwyau. Mae cudyllod coch bach, sy'n nythu mewn cytrefi, yn canfod y bygythiadau hyn ac yn eu gyrru i ffwrdd yn egnïol! Yn fwy diddorol fyth, mae astudiaeth a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023 yn dangos bod brain coesgoch hyd yn oed yn mynd cyn belled â rhannu'r un blwch nythu â thylluanod gwynion!

Yn ystod hanner cyntaf yr 20ed ganrif, roedd brain coesgoch wedi diflannu'n llwyr o Loegr, Cernyw, yr Alban, ynysoedd Jersey a Guernsey, a diflannodd poblogaethau cyfan o Bortiwgal, y Swistir, a'r Eidal.

**Felly, sut allwn ni achub y frân fach hon sy'n byw ar y clogwyni?**

Arfordiroedd tawel... mae'n amlwg! Roedd y Prydeinwyr yn pryderu am ddiflaniad un o'u hadar eiconig ac fe lansiwyd sawl rhaglen ailgyflwyno. Mae un ohonynt, o'r enw *Birds on the Edge*, yn dyddio'n ôl i 2010 ac yn anelu at ddod â'r frân goesgoch yn ôl i ynys Jersey, yn enwedig trwy gael gwared ar unrhyw redyn sydd wedi gordyfu a fyddai'n eu hatal rhag dod o hyd i fwyd a thrwy ailgyflwyno bugeiliaeth, yr arfer o ganiatáu i ddefaid bori'n rhydd mewn rhai ardaloedd o'r ynys.

Hyd at y 18ed ganrif, roedd brain coesgoch yn cael eu cyhuddo o ddod â cols poeth neu frigau fflamllyd i gynnau tân i doeau gwellt - chwedl a ysbrydolwyd yn ôl pob tebyg gan liw coch llachar ei big a'i goesau.

Roedd yr aderyn eiconig hwn i Gernyw. Mae hyd yn oed yn eistedd yn falch yng nghanol arfbais y wlad! Er ei bod yn gyffredin iawn yno ar un adeg, diflannodd y frân goesgoch yn raddol o'r clogwyni nes iddi ddiflannu'n llwyr ar ôl 1952, y flwyddyn y gwelwyd y pâr bridio olaf. Dychmygwch anobaith y bobl leol, a gollodd eu haderyn symbolaidd!

Rhaid dweud bod Cernyw a Llydaw, yn gyfoethog mewn mythau a chwedlau. Fe welwch chi feini hirion a chromlechi yn Llydaw. Yng Nghernyw, fe welwch chi Gastell Tintagel, preswylfa wreiddiol y Brenin Arthur enwog! Mae'r stori yn dweud bod enaid Arthur wedi hedfan i ffwrdd ar ffurf brân goesgoch a dywedir bod ei big a'i goesau'n debyg i'w glwyfau gwaedlyd.

Ond yn ôl y chwedl eto, pe bai'r brain coesgoch yn diflannu ac yna'n ailymddangos, byddai'r Brenin Arthur yn dychwelyd i Loegr i adfer ei orsedd a'i deyrnas i'w hen ogoniant. A wyddoch chi be'...? Yn 2001, ar ôl hanner can mlynedd o absenoldeb, ymsefydlodd pedwar brân goesgoch ar glogwyni Cernyw! (cyfraniad Cymru?). Roedd yr ehedwyr bach hyn wedi dychwelyd adref. A oedd y Brenin Arthur chwedlonol gyda nhw?

Cafodd brain coesgoch eu herlid drwy gydol yr oesoedd canol, gan fod llên gwerin yn dweud eu bod yn godwyr tân ac wedi cael eu coesau coch a'u pig o'u trochi yng ngwaed Thomas Becket ar ôl ei ddienyddio.

Nawr, y bygythiadau mwyaf y mae'r adar prin hyn yn eu hwynebu yw colli cynefin a ffynonellau bwyd, oherwydd dwysáu amaethyddol ac ymadael â'r tir. Gan wledda ar bridd, daear a infertebratau sy'n byw mewn tail, mae brain coesgoch yn chwilota ar borfa a rhostir, gyda llystyfiant byr, ger nythfannau yn y clogwyni

Yn Llydaw, a heb ymdrechion i'w hailgyflwyno, mae'r frân goch goesgoch yn gwneud rhywfaint yn well nag yn y ganrif ddiwethaf - 57 o barau yn byw ar ynys Gêrveur [Belle-Île-en-Mer] heddiw i gymharu â rhyw 50 ar gyfer Llydaw gyfan ar dderchau'r blynyddoedd 2000!



Arfbais Thomas Becket

**Addasiad a chyfieithiad o erthygl yn Ffrangeg gan Futura-Sciences**
**DK**

# Adar: Hyfforddiant Gwanwyn 2026



## Sesiynau hyfforddi gwanwyn BTO Cymru

### Cwrdd â BTO Cymru (ar-lein)

Dysgwch am boblogaethau adar Cymru, a'r arolygon y gallwch ymuno â nhw i helpu i'w gwarchod (07/04)

### Hyfforddiant Arolwg Adar sy'n nythu

Sesiynau wyneb-i-wyneb ar yr arolwg hollbwysig hyn
Y Ganolfan, Porthmadog (15/03)
Canolfan Gymunedol Llanfwrog, Rhuthun (21/03)
Gwarchodfa Natur Rhydymwyn (22/03)


### Hyfforddiant Adnabod Caneuon Adar (ar-lein)


Cwrs ar-lein i hogi eich sgiliau adnabod caneuon adar (14+21/04)

### Hyfforddiant Arolygon (ar-lein)

Sesiynau ar-lein ar Gyfrifiad y Crëyr Glas (03/03), Arolwg Cofnodi Nythod (17/03), ac Arolwg Adar sy'n Nythu (24/03)

**Ewch i : www.bto.org/cymru-events**





David Tippling / BTO